WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cyngor Bro Morgannwg

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Gorffennaf 2010



**Cyf: 461A2010**
Llun trwy garedigrwydd Cyngor Bro Morgannwg.
Arweiniwyd Tîm Asesu Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg gan Steve Barry (Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant) a Janet Villars (Cydgysylltydd Asesu Gwelliant) dan gyfarwyddyd Jane Holownia (Partner).

**Mae trefniadau arwain a rheoli cadarn yn cyfrannu at welliannau mewn meysydd allweddol ond nid yw'r weledigaeth strategol yn cael ei hategu gan gynlluniau cyflenwi sy'n adlewyrchu'r cyfyngiadau newydd o ran adnoddau hyd yma.**


**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**
**Ffôn: 029 2032 0500**
**Ffacs: 029 2032 0600**
**Ffôn Testun: 029 2032 0660**
**E-bost: info@wao.gov.uk**
**Gwefan: www.wao.gov.uk**



Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bro Morgannwg fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk



# Cynnwys


Crynodeb 4

Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser 6

Mae'r Cyngor wedi gwella canlyniadau mewn meysydd allweddol ac yn rheoli ei raglen drawsnewid UnFro yn effeithiol, ond mae'n wynebu heriau sylweddol yn y dyfodol 6

Mae'r Cyngor wedi pennu nodau ar gyfer newid, gan roi cwsmeriaid wrth wraidd y broses, ac mae'n defnyddio technolegau arloesol newydd fel rhan o raglen newid 10 mlynedd 6

Mae'r Cyngor yn rhoi newidiadau ar waith a gall ddangos canlyniadau gwell mewn rhai meysydd allweddol o weithgarwch 6

Mae'r Cyngor yn wynebu heriau o ran sicrhau bod ei gynlluniau cyflenwi yn adlewyrchu gostyngiadau mewn adnoddau ac yn cefnogi'r cynnydd y mae wedi'i wneud o ran ei ddefnydd o TGCh mewn ffordd ddigonol 7

Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella 9

Mae prosesau arwain, llywodraethu a rheoli busnes cadarn yn llywio'r newidiadau angenrheidiol ond nid yw gweledigaeth y Cyngor yn cael ei hategu gan gynlluniau cyflenwi sy'n adlewyrchu cyfyngiadau newydd o ran adnoddau hyd yma 9

Mae trefniadau arwain cadarn a threfniadau rheoli ariannol sydd wedi hen ymsefydlu yn cefnogi'r broses o gyflawni gwelliannau 9

Mae trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol cadarn wedi cyfrannu at lwyddiant o ran cyflawni gwelliannau ond nid yw'r mesurau perfformiad cyfredol yn adlewyrchu canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau 10

Mae trefniadau rheoli pobl yn ategu'r broses o wneud newidiadau ar y cyfan, ond nid yw'r Cyngor wedi sefydlu cynllun gweithlu hyd yma i'w alluogi i sicrhau bod gofynion staff yn cyfateb i anghenion yn y dyfodol 11

Mae cynlluniau strategol eang ar waith ond nid yw'r Cyngor wedi adlewyrchu cynlluniau ariannol tymor canolig mewn cynlluniau gwasanaeth hyd yma i ddiffinio sut y bydd yn cyflawni gwelliannau o ystyried y cyfyngiadau o ran adnoddau y mae bellach yn eu hwynebu 12

Mae cyfraniad gwaith partneriaeth a'r defnydd o dir ac adeiladau yn y broses o gyflawni amcanion yn aneglur 13

# Crynodeb

1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad Gwella blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru; hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal:

- Asesiad Corfforaethol – sy'n asesu trefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – sy'n asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo.

3 Y nod yw cynnal asesiad o'r sefydliad cyfan ym mhob cyngor mewn ffordd safonol. Gyda'i gilydd bydd y ddau asesiad hyn yn sail i adroddiad blynyddol i ddinasyddion, sef yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith yr Archwilydd Penodedig a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad Corfforaethol.

5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faint yr her ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol, sef *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus*. Mae CLILC, CIPFA a SOLACE wedi tynnu sylw hefyd at yr effaith y gallai gostyngiadau mewn gwariant ei chael ar lywodraeth leol. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2010, nododd CLILC nad oedd modd osgoi'r ffaith y byddai'n rhaid i bob rhan o'r sector cyhoeddus edrych ar ei gwariant presennol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddi ac na ellir cywiro'r diffyg drwy arbedion effeithlonrwydd yn unig. Er mwyn ateb yr her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r modd y'u cyflwynir, gan gynnwys ystyried opsiynau ar gyfer caffael mwy o wasanaethau yn hytrach na'u darparu a chydweithredu. Paratowyd yr Asesiad Corfforaethol yn y cyd-destun hwn.

6 Mae'r adroddiad hwn ond yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'i ddiben yw ateb y cwestiwn:

‘A yw trefniadau Cyngor Bro Morgannwg (y Cyngor) yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?’

7 Gan mai ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn a monitro cynnydd yn y misoedd i ddod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.



8 Yn ôl ein Hasesiad Corfforaethol cyntaf mae trefniadau arwain a rheoli cadarn yn cyfrannu at welliannau mewn meysydd allweddol ond nid yw'r weledigaeth strategol yn cael ei hategu gan gynlluniau cyflenwi sy'n adlewyrchu'r cyfyngiadau newydd o ran adnoddau hyd yma.

9 Mae ein casgliad yn seiliedig ar ein hasesiad o'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i gefnogi gwelliant. Esbonnir y casgliadau hyn yn fanwl yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad yn y drefn honno. Nodwyd y canlynol:

- mae'r Cyngor wedi gwella canlyniadau mewn meysydd allweddol ac yn rheoli ei raglen drawsnewid UnFro yn effeithiol, ond mae'n wynebu heriau sylweddol yn y dyfodol; ac
- mae prosesau arwain, llywodraethu a rheoli busnes cadarn yn llywio'r newidiadau angenrheidiol ond nid yw gweledigaeth y Cyngor yn cael ei hategu gan gynlluniau cyflenwi sy'n adlewyrchu cyfyngiadau newydd o ran adnoddau hyd yma.

## Meysydd i'w gwella

10 Mae'r asesiad wedi nodi meysydd lle y cynigiwn y dylai'r Cyngor ystyried cymryd camau gweithredu.

| Arddangosyn 1: Meysydd i'w gwella |
|---|
| C1 Pennu blaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu o ystyried bod llai o adnoddau ar gael. |
| C2 Pennu mesurau canlyniadau sy'n galluogi'r Cyngor i nodi effaith ei weithgarwch ar y gymuned a defnyddwyr gwasanaethau. |
| C3 Pennu trefniadau corfforaethol ar gyfer ariannu, adnewyddu a datblygu maes TGCh. |
| C4 Sicrhau bod cynlluniau busnes gwasanaethau yn cynnwys amcangyfrifon realistig o adnoddau ariannol, adnoddau dynol ac adnoddau eraill sydd eu hangen i gyflawni'r camau gweithredu arfaethedig. |

# Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

## Mae'r Cyngor wedi gwella canlyniadau mewn meysydd allweddol ac yn rheoli ei raglen drawsnewid UnFro yn effeithiol, ond mae'n wynebu heriau sylweddol yn y dyfodol

### Mae'r Cyngor wedi pennu nodau ar gyfer newid, gan roi cwsmeriaid wrth wraidd y broses, ac mae'n defnyddio technolegau arloesol newydd fel rhan o raglen newid 10 mlynedd

11 Ym mis Hydref 2005, derbyniodd y Cabinet yr achos busnes a dechreuodd y Cyngor roi UnFro, rhaglen drawsnewid 10 mlynedd, ar waith. Un o nodau UnFro yw trawsnewid busnes drwy ddefnyddio technolegau a phrosesau arloesol; creu diwylliant o gydweithio a chanolbwyntio ar wasanaeth cwsmeriaid; gwella hygyrchedd gwasanaethau; a lleihau gwariant refeniw craidd drwy ddefnyddio mwy o dechnoleg ar y we a thechnoleg symudol a thrwy roi systemau newydd ar waith i leihau a safoni data, systemau a phrosesau.

12 Cafwyd newid mewn arweinyddiaeth wleidyddol ym mis Mai 2008 ond ni chafodd yr ymrwymiad i UnFro ei newid, a chafwyd hefyd sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth lefel swyddog gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid, TGCh ac Eiddo. Sefydlwyd bwrdd rhaglen i reoli gweithgarwch UnFro, a arweiniwyd gan y Prif Weithredwr. Mae'r bwrdd yn goruchwylio buddsoddiad o £14.8 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd, rhwng 2006 a 2016, gyda'r nod o gyflawni arbedion rhagamcanol o £39 miliwn yn ystod y cyfnod hwn.

13 Mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni prosiectau UnFro gan reoli cyfyngiadau o ran yr adnoddau sydd ar gael. Mae Bwrdd Rhaglen UnFro yn cwrdd bob mis ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan saith prosiect cysylltiedig. Mae'r bwrdd yn adolygu cynnydd ac yn gweithredu i ddatrys problemau. Drwy wella'r defnydd o TGCh, mae'r Cyngor yn symleiddio gweithdrefnau. Mae'r Cyngor wedi sefydlu ffordd syml o gysylltu â'r Cyngor drwy ganolfan gyswllt; wedi rhoi prosesau ar waith sy'n anelu at wella gallu staff y ganolfan i ddelio ag ymholiadau ar y cyswllt cyntaf; ac wedi meithrin cysylltiadau lleol gwell drwy lyfrgelloedd.

### Mae'r Cyngor yn rhoi newidiadau ar waith a gall ddangos canlyniadau gwell mewn rhai meysydd allweddol o weithgarwch

14 Ym mis Chwefror 2007, cyhoeddwyd Cydadolygiad o Wasanaethau Cymdeithasol a ddaeth i'r casgliad bod y Cyngor yn darparu 'gwasanaethau da ar y cyfan' ond ei fod mewn sefyllfa ansicr o ran cynnal a gwella gwasanaethau ymhellach. Mewn ymateb, lluniodd y Cyngor gynllun newid ac mae'r Cabinet,



aelodau Craffu, y Prif Weithredwr a thîm rheoli Gwasanaethau Cymdeithasol newydd wedi bod yn arwain y broses o'i roi ar waith.

15 Yn Llythyr Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig adroddiad diamod ar y datganiadau ariannol. Hefyd, nododd y Llythyr Blynyddol fod adolygiadau o wasanaethau a threfniadau corfforaethol yn dangos bod y Cyngor yn parhau i wneud gwelliannau a'i fod wedi cydnabod yr angen i atgyfnerthu rhai agweddau, yn enwedig gwasanaethau hamdden, gwaith partneriaeth a chynlluniau rheoli asedau.

16 Mae'r Cyngor wedi rhoi'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu o'i gynllun newid Gwasanaethau Cymdeithasol ar waith. Mae'r Cyngor hefyd wedi cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael ag un digwyddiad difrifol o ran rheoli achosion. Craffwyd ar y broses o roi'r cynllun newid ar waith a'r ymateb i'r digwyddiad mewn perthynas â rheoli achosion, ac mewn adroddiad gan AGGCC cydnabuwyd y camau cadarnhaol a gymerwyd gan y Cyngor ac ategwyd yr angen i sicrhau y caiff canlyniadau a fwriedir eu cyflawni.

17 Cymerodd y Cyngor ran mewn arolygiad prawf gan Estyn, a chyflwynwyd adroddiad arno ym mis Mai 2010. Casglodd fod y gwasanaeth addysg yn 'dda' a bod cyfleoedd 'da' ar gyfer gwelliant.

18 Mae'r Cyngor yn defnyddio technoleg yn effeithiol i ailddylunio gwasanaethau, gan drawsnewid y ffordd y mae'n eu darparu, gwella prosesau busnes a sicrhau arbedion ariannol mewn perthynas â chostau rhedeg y Cyngor. Drwy roi cyfres e-fusnes yr Oracle ar waith, mae'r Cyngor wedi gwella systemau cefn swyddfa mewn perthynas â chyllid, caffael, Adnoddau Dynol a'r gyflogres ac wedi datblygu prosesau caffael. Yn 2006, sefydlwyd canolfan gyswllt gan y Cyngor yn ogystal ag un rhif cyswllt yn seiliedig ar gyfres e-fusnes yr Oracle.

### Mae'r Cyngor yn wynebu heriau o ran sicrhau bod ei gynlluniau cyflenwi yn adlewyrchu gostyngiadau mewn adnoddau ac yn cefnogi'r cynnydd y mae wedi'i wneud o ran ei ddefnydd o TGCh mewn ffordd ddigonol

19 Yn ddiweddar, lluniodd y Cyngor Strategaeth Gymunedol newydd ar gyfer 2010-2020 a Chynllun Corfforaethol ar gyfer 2010-2014. O ganlyniad, nid yw'r cynlluniau gwasanaeth a luniwyd ar ddiwedd 2009 ar gyfer 2010-11 yn cyfateb i'r Cynllun Corfforaethol newydd na'r Strategaeth Gymunedol. Eir i'r afael â hyn yng nghylch newydd y broses o ddatblygu cyllideb a chynllun gwasanaeth 2011-12 a fydd yn dechrau yng nghanol 2010.

20 Ers mis Ebrill 2010, mewn ymateb i gyfyngiadau cyllidebol, mae'r Cyngor wedi lleihau nifer y staff ar lefel uwch ac mae wrthi'n gwneud newidiadau mewn perthynas â swyddogaethau cefn swyddfa gan geisio sicrhau bod gwasanaethau sy'n ymdrin â chwsmeriaid ar gael o hyd.

21 Er ei fod yn cynyddu ei ddefnydd o dechnoleg i ddarparu gwasanaethau'n effeithlon ac yn gost effeithiol, nid yw'r Cyngor wedi sicrhau bod y seilwaith yn gyfredol ac yn cael ei chynnal hyd yma. Nid oes ganddo raglen ar gyfer cynnal a newid ei seilwaith dechnoleg. Nid yw'r gwaith o gynnal, adnewyddu a datblygu technoleg wedi'i gysylltu â chynlluniau ariannol tymor canolig.

Mae dull y Cyngor o ariannu technoleg yn draddodiadol (mae'n ei hariannu fel ased gwasanaeth yn hytrach nag ased corfforaethol), ac mae'n bosibl nad hwn fydd y dull mwyaf cost effeithiol a chynaliadwy yn yr hirdymor. Caiff y gwaith o adnewyddu a datblygu technoleg ei ariannu drwy danwariant yn y gyllideb refeniw neu gynigion cyfalaf. Yn ystod blynyddoedd diweddar, mae'r arian cyfalaf a ddyrennir ar gyfer TGCh wedi lleihau ac nid yw'r broses ariannu yn gysylltiedig â chyflawni amcanion penodol. Gellid cyflawni effeithlonrwydd pellach drwy drin TGCh bwrdd gwaith fel ased corfforaethol a ariennir yn ganolog sydd â pholisi adnewyddu safonol.

22 Cytunodd y Cyngor ar ei gynllun gwella, sy'n nodi amcanion gwella'r Cyngor, ym mis Gorffennaf 2010. Byddwn yn adolygu'r rhain ac yn cynnig sylwadau arnynt yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ym mis Tachwedd.



# Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

## Mae prosesau arwain, llywodraethu a rheoli busnes cadarn yn llywio'r newidiadau angenrheidiol ond nid yw gweledigaeth y Cyngor yn cael ei hategu gan gynlluniau cyflenwi sy'n adlewyrchu cyfyngiadau newydd o ran adnoddau hyd yma

### Mae trefniadau arwain cadarn a threfniadau rheoli ariannol sydd wedi hen ymsefydlu yn cefnogi'r broses o ddarparu gwelliannau

23 Caiff y rhaglen newid ei chefnogi gan gonsensws gwleidyddol ymysg aelodau ynghylch ei chyfeiriad a sefydlogrwydd arweinyddiaeth lefel swyddog. Mae aelodau ac uwch reolwyr wedi canolbwyntio ar weithgareddau allweddol ac yn gallu cyfeirio at lwyddiant blaenorol o gyflawni newid yn llwyddiannus yn y rhaglen UnFro ac o fynd i'r afael â materion penodol sy'n seiliedig ar wasanaethau:

- Mae rhaglen UnFro yn cynnwys saith prosiect allweddol:
  - C1V (Canolfan Gyswllt)
  - Cysylltiadau Cwsmeriaid
  - Cyflogres Oracle
  - Rheoli Gwybodaeth
  - Ailddylunio Prosesau Busnes
  - i-Gaffael
  - Gweithio Symudol

24 Cyfrifoldeb uwch reolwyr yw cyflawni cydrannau'r prosiectau a chaiff cynnydd ei reoli yng nghyfarfodydd misol Bwrdd Rhaglen UnFro, o dan arweiniad y Prif Weithredwr. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid, TGCh ac Eiddo yn chwarae rôl allweddol o ran arwain y rhaglen yn gyffredinol a diweddaru cyllidebau.

25 Ym mis Ebrill 2009, cynigiodd yr Archwilydd Penodedig y dylid llunio 'model gwireddu buddiannau' ar gyfer UnFro er mwyn galluogi'r Cyngor i werthuso a yw amcanion y rhaglen yn cael eu cyflawni. Datblygwyd model o'r fath gan reolwyr ym mis Hydref 2009 i ddangos buddiannau ariannol ac anariannol. Byddwn yn cyfeirio at y canlyniadau a ddangosir yn y model hwn yn ein gwaith Asesu Perfformiad yn y dyfodol.

26 Mae gwaith cynllunio ariannol tymor canolig yn seiliedig ar ddogfen lefel uchel sy'n nodi adnoddau disgwyliedig, costau disgwyliedig, y bwlch yn y gyllideb a'r strategaeth gyllidebol. Caiff y ddogfen hon ei diweddaru'n rheolaidd ac mae Grŵp Gorchwyl y Gyllideb, sy'n cynnwys uwch reolwyr ac aelodau, yn adolygu'r strategaeth gyllidebol cyn rhoi cyngor i dimau gwasanaethau ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael ar gyfer cynlluniau gwasanaeth blynyddol.

27 Mae tîm Adolygu Prosesau Busnes bach yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a rheolwyr gwasanaethau i nodi effeithlonrwydd ymhob rhan o'r Cyngor ac i roi cyngor ar weithredu.

28 Gall y Cyngor brofi bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael cyfleoedd amrywiol i leisio eu barn (gan gynnwys y Cabinet yn ymweld â gwahanol gymunedau). Defnyddiwyd dull cadarnhaol o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau wrth lunio'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl, pan gyflwynodd y Cyngor adroddiad ar y safbwyntiau a fynegwyd a'r hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud mewn ymateb iddynt. Mae'r rhaglen UnFro wedi rhoi cyfleoedd i'r cyhoedd ddefnyddio llyfrgelloedd lleol fel canolfannau i gysylltu â'r Cyngor ar lefel ehangach. Fodd bynnag, ceir rhai meysydd lle nad yw mor glir sut bydd y Cyngor yn ymateb i farn defnyddwyr gwasanaethau. Er enghraifft, ymgorfforwyd rhai themâu o arolwg barn y cyhoedd yn 2009 fel camau gweithredu yn y Cynllun Corfforaethol newydd, megis darparu cyfleusterau i bobl ifanc a chymryd camau i fynd i'r afael â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond nid yw'r camau arfaethedig mewn perthynas â meysydd eraill o bryder, megis gwaith cynnal a chadw ar ffyrdd, trefniadau parcio a glanhau strydoedd, mor glir.

## Mae trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol cadarn wedi cyfrannu at lwyddiant o ran cyflawni gwelliannau ond nid yw'r mesurau perfformiad cyfredol yn adlewyrchu canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau

29 Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli perfformiad systematig sydd wedi hen ymsefydlu. Mae'r Cyngor wedi datblygu system rheoli perfformiad o'r enw Ffynnon, ac mae'n defnyddio swyddogaethau'r system i ddirprwyo'r cyfrifoldeb am gofnodi a rheoli gwybodaeth am berfformiad gwasanaeth i reolwyr y gwasanaeth perthnasol. Mae ein harchwiliad o'r dangosyddion strategol cenedlaethol a gynhaliwyd yn 2009 yn dangos bod gan y Cyngor drefniadau da ar waith ar gyfer casglu a dilysu gwybodaeth am berfformiad.

30 Caiff gwybodaeth am berfformiad ei monitro'n rheolaidd ac fe'i cyflwynir i uwch swyddogion ac aelodau etholedig drwy system Ffynnon, y mae gan aelodau fynediad iddi drwy eu cyfrifiaduron personol. Ymgysylltir ag aelodau yn llawn ar lefel y Cabinet ac ar lefel Graffu, a thrwy ddefnyddio Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a Phanel Perfformiad (sy'n cwrdd cyn cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu) gellir canolbwyntio'n agosach ar faterion penodol a datblygu strategaethau gweithredu.

31 Caiff trefniadau cyflwyno adroddiadau eu mesur yn erbyn dangosyddion perfformiad neu weithredoedd sydd wedi'u cwblhau heb lawer o wybodaeth am y canlyniadau a gyflawnwyd i ddefnyddwyr gwasanaethau. Ni chaiff canlyniadau sy'n deillio o newid eu gwerthuso'n rheolaidd ar hyn o bryd.



32 Sefydlwyd swyddfa prosiect i reoli rhaglen UnFro a gefnogwyd gan ddull o weithio ar brosiectau unigol a oedd yn seiliedig ar weithgor a methodoleg rheoli prosiect gorfforaethol. Cafodd ein pryderon gwreiddiol ynglŷn â'r aneglurder ynghylch buddiannau a fwriedir a sut y cânt eu cyfleu eu lleddfu, ac aed i'r afael â gwaith i wella eglurder a chysylltiadau rhwng amcanion, y weledigaeth gorfforaethol a gwireddu buddiannau.

33 Caiff risgiau eu rheoli gan y Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol. Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd y trefniadau ac yn cyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Tachwedd.

## Mae trefniadau rheoli pobl yn ategu'r broses o wneud newidiadau ar y cyfan, ond nid yw'r Cyngor wedi sefydlu cynllun gweithlu hyd yma i'w alluogi i sicrhau bod gofynion staff yn cyfateb i anghenion yn y dyfodol

34 Mae polisi 'Rheoli Newid' Adnoddau Dynol y Cyngor wedi'i lunio i reolwyr gyfeirio ato ar bob lefel. Lluniwyd y polisi i gefnogi'r newidiadau diwylliannol sydd eu hangen yn sgîl rhoi UnFro ar waith; yn ôl yr arwyddion cynnar mae'r cymorth yn helpu rheolwyr i wneud penderfyniadau anodd a newidiadau. Cynigiwn y dylid adolygu effeithiolrwydd y dull hwn ymhellach pan fyddwn yn cwrdd â rheolwyr gwasanaethau mewn perthynas ag asesu perfformiad yn y misoedd i ddod.

35 Mae defnyddio'r polisi 'Rheoli Presenoldeb' yn rheolaidd wedi arwain at leihau nifer y diwrnodau o absenoldeb oherwydd salwch a geir ar gyfartaledd ymhob rhan o'r Cyngor. Drwy ddadansoddi gwybodaeth a rhoi cyngor clir sicrhawyd y caiff ei ddefnyddio'n rheolaidd, a chaiff gwybodaeth am absenoldeb oherwydd salwch ei gyflwyno'n rheolaidd ar gyfer pob maes gwasanaeth.

36 Mae'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn bwriadu llunio cynllun gweithlu ar gyfer 2011-12. Mae pecyn cymorth a thempled ar gyfer cynllunio gweithlu wrthi'n cael eu datblygu. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn ystyried gosod gofynion tair i bum mlynedd ar y Cyngor a'r goblygiadau cysylltiedig i'r gweithlu, ac mae'n gweithio gyda CLILC i lunio model cynaliadwy ar gyfer pennu anghenion staffio. Mae'r Cyngor wrthi'n meddwl am ffyrdd newydd o weithio i wella'r gwerth a geir gan staff a gyflogir ar hyn o bryd, er enghraifft drwy adleoli staff arlwyo sy'n gweithio ym maes hamdden i swyddi gweinyddol.

37 Gan gydnabod bod defnyddio technoleg yn effeithiol yn agwedd bwysig ar drawsnewid gwasanaethau a darparu effeithlonrwydd, mae'r Cyngor yn ategu rhaglen UnFro â rhaglen hyfforddi i bob aelod o staff, yn seileidig ar y Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd, cymhwyster Ewropeaidd sy'n dangos cymhwysedd o ran sgiliau cyfrifiadurol. Mae dau hyfforddwr mewnol yn darparu hyfforddiant TG am ddim i staff y Cyngor, a ariennir gan y gyllideb TGCh gorfforaethol. Y nod yw cael gwared ar y rhwystrau ariannol sy'n atal pobl rhag cymryd rhan, a disgwylir i'r buddsoddiad dalu ar ei ganfed oherwydd bydd llai o orbenion o ran cymorth TG am fod staff yn gallu defnyddio technoleg yn effeithiol.

**Mae cynlluniau strategol eang ar waith ond nid yw'r Cyngor wedi adlewyrchu cynlluniau ariannol tymor canolig mewn cynlluniau gwasanaeth hyd yma i ddiffinio sut y bydd yn darparu gwelliannau o ystyried y cyfyngiadau o ran adnoddau y mae bellach yn eu hwynebu**

38 Mae gan y Cyngor ddull systematig sydd wedi hen ymsefydlu o lunio cynlluniau gwasanaeth, ac mae'r camau gweithredu wedi'u cysylltu â chyflawni amcanion corfforaethol. Gall ddangos llwyddiant blaenorol o ran datblygu gwasanaeth (UnFro a chanlyniad arolygiad Estyn) a delio â materion pwysig (ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol).

39 Mae'r Cynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gymunedol yn nodi'r canlynol: 'Lle cymharol gyfoethog ar y cyfan yw Bro Morgannwg ac y mae llawer o'i thrigolion yn cael mwynhau safon byw uchel mewn amgylchedd da. Serch hynny, y mae anawsterau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol mewn ambell i ardal fel diweithdra mawr, tai gwael, plant yn methu â chyflawni yn yr ysgol a'r coleg, iechyd gwael a llawer o droseddu. Ein nod yw targedu'r hyn sydd angen ei wella a hefyd gynnal a hybu nodweddion gorau'r Fro, fel y caiff trigolion yr ardal a phawb sy'n gweithio neu'n hamddena ynddi well ansawdd bywyd.' Hyd yma, nid yw'n glir sut y caiff blaenoriaethau eu pennu na sut y caiff canlyniadau eu mesur pan fo adnoddau'n gyfyngedig.

40 Cafodd y Cynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gymunedol eu mabwysiadu'n ddiweddar ond, gan fod cynlluniau gwasanaeth cyfredol wedi cael eu llunio cyn iddynt gael eu cyhoeddi, nid yw'r camau gweithredu penodol yn y cynlluniau gwasanaeth yn gyson â'r camau a nodir yn y cynllun a'r strategaeth. Dylid datrys y broblem hon rhwng y cynlluniau gwasanaeth a'r Cynllun Corfforaethol yn ystod yr hydref pan fydd cynlluniau gwasanaeth newydd yn cael eu datblygu.

41 Mae cynlluniau gwasanaeth cyfredol yn dangos amcangyfrif o'r staff y bydd eu hangen i'w cyflawni, ond nid yw'n dangos yr adnoddau ariannol na'r adnoddau eraill y bydd eu hangen, na sut yr eir i'r afael ag effeithiau'r broses gyflawni. Bydd angen datrys hyn wrth lunio'r cynlluniau gwasanaeth newydd.

42 Mae'r Cyngor wedi cyflawni ystod o weithgareddau adfywio mewn ardaloedd gwledig a threfol ac, ym mis Medi 2008, gymerodd ran yn y gwaith o sefydlu Partneriaeth Adfywio Sirol. Comisiynwyd asesiad sylfaenol gan y bartneriaeth a chyflwynwyd adroddiad ym mis Awst 2009 sy'n darparu fframwaith ar gyfer integreiddio dulliau o gyflawni agweddau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol ag elfennau cyflawni allweddol eraill ar draws y sir. Ar hyn o bryd, rydym yn ansicr ynghylch pa brosiectau a gaiff eu blaenoriaethu a sut y caiff eu heffeithiau eu hasesu. Caiff hyn ei adolygu a chaiff adroddiad ei gyflwyno arno yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Tachwedd.



## Mae cyfraniad gwaith partneriaeth a'r defnydd o dir ac adeiladau yn y broses o gyflawni amcanion yn aneglur

43 Nododd adolygiad 2009 Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau rheoli adeiladau fod angen diweddaru'r Cynllun Rheoli Asedau (nad oedd wedi'i adolygu ers 2006). Hefyd, cafodd yr adolygiad fod cynnydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r dyheadau a'r amcanion a nodir yn y cynllun busnes ar gyfer cynnal a chadw adeiladau ond roedd angen gwneud mwy i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer trawsnewid gwasanaeth, gan gynnwys nodi'n glir y cyfiawnhad busnes dros dal gafael ar dir ac adeiladau. Roedd y cynnydd a nodwyd yn adroddiad 2009 yn seiliedig ar y wybodaeth reoli sy'n ategu gweithgarwch gweithredol y gwasanaeth. Ymhlith y datblygiadau eraill roedd:

- cyflwyno system apwyntiadau newydd (Medi 2009);
- ailddylunio proses busnes mewn perthynas â swyddogaethau rheng flaen a chefn swyddfa;
- pob gweithredwr yn dechrau gweithio'n symudol (o fis Medi 2009); a
- throsglwyddo i'r rhestr cyfraddau genedlaethol.

44 Fel rhan o gam nesaf rhaglen UnFro, mae prosiect gwaith symudol/hyblyg yn ategu ac yn hwyluso'r broses o gyfuno a lleihau swyddfeydd. Mae'r dechnoleg wedi'i phrofi a bellach mae rhwydwaith diwifr ym mhob un o brif swyddfeydd y Cyngor. Bydd y Tîm Rheoli Corfforaethol yn sicrhau y caiff gweithio symudol ei roi ar waith, gan ei gwneud yn bosibl i rai o adeiladau'r Cyngor gael eu rhyddhau.

45 Yn 2009, nododd adolygiad o waith partneriaeth gan yr Archwilydd Penodedig wendidau mewn trefniadau partneriaeth. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar argymhellion yr adroddiad, gyda'r nod o roi'r rhan fwyaf ohonynt ar waith erbyn mis Medi 2010. Byddwn yn cynnal adolygiad pellach o gynnydd fel rhan o'n gwaith Asesu Gwelliant. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod peth cynnydd eisoes wedi'i wneud a bod adnoddau wedi'u buddsoddi i lunio'r fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer y cyrff partneriaeth strategol. Yn ogystal â darparu adnodd y gellir mesur cynnydd yn ei erbyn, bydd y fframwaith yn darparu nifer o fuddiannau eraill pan gaiff ei gwblhau, gan gynnwys:

- amcanion a blaenoriaethau clir;
- atgyfnerthu agendâu cyfarfodydd partnaeriaeth drwy ddarparu ffocws clir;
- diffinio rolau a chyfrifoldebau aelodau a gweithgorau mewn perthynas â chyflawni targedau; a
- nodi lle a sut mae angen defnyddio adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion yn y ffordd orau.